# Ymgynghoriad ar y taliadau diwygiedig ar gyfer y Rhaglen Rheoli Gweddillion Genedlaethol (NRCP)

## Dogfen atodol

Tachwedd 2025

Rydym yn gyfrifol am wella a gwarchod yr amgylchedd. Ein nod yw tyfu economi werdd a chynnal cymunedau gwledig ffyniannus. Rydym hefyd yn cefnogi ein diwydiannau bwyd, ffermio a physgota sydd gyda'r gorau yn y byd.

Adran weinidogol yw DEFRA, a gefnogir gan 34 o asiantaethau a chyrff cyhoeddus.

OGL

© Hawlfraint y Goron 2025

Mae'r wybodaeth hon wedi ei thrwyddedu o dan Drwydded Llywodraeth Agored f3.0. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/defra

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn residues@vmd.gov.uk

## Cynnwys

Dogfen atodol ........ 1

Tabl 1: costau'r NRCP ........ 4

Graff 1: costau'r NRCP (£000). ........ 5

Tabl 2: newidiadau arfaethedig i Atodlen 1 ........ 6

Tabl 3: enghraifft ddangosol o effaith ariannol debygol y cynigion ar y sector gwartheg yn yr NRCP ........ 7

Tabl 4: enghraifft ddangosol o effaith ariannol debygol y cynigion ar brosesydd gwartheg nodweddiadol yn yr NRCP ........ 8

Cefndir ........ 9

Casglu a dadansoddi samplau ........ 9

Y cyd-destun deddfwriaethol a thiriogaethol ........ 10

Tabl 5: lleoliad rhanbarthol rhanddeiliaid yn yr NRCP ........ 11

Graff 2: lleoliad rhanbarthol rhanddeiliaid yn yr NRCP ........ 12

Elfennau cost yr NRCP ........ 13

Rôl asiantaethau casglu ........ 13

Sut cyfrifir y taliadau ar gyfer pob sector ........ 14

Llaeth ........ 14

Cig coch a chig dofednod ........ 15

Pysgod ........ 15

Anifeiliaid hela ........ 16

Wyau ........ 16


Gwerth am arian ........ 17

Archwiliadau allanol ........ 17

## Tabl 1: costau'r NRCP

| Blwyddyn ariannol | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 | 2025-26 | 2026-27 | 2027-28 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** |
| **Cyfanswm cost NRCP - Lloegr** | 2.9 | 2.8 | 2.9 | 3.1 | 3.3 | 3.6 | 5.0 | 5.2 | 5.3 |
| **Cyfanswm cost NRCP - Cymru** | 0.3 | 0.3 | 0.3 | 0.3 | 0.4 | 0.4 | 0.6 | 0.6 | 0.6 |
| **Cyfanswm cost NRCP - yr Alban** | 0.6 | 0.6 | 0.6 | 0.6 | 0.7 | 0.7 | 1.0 | 1.1 | 1.1 |
| **Cyfanswm cost NRCP** | **3.8** | **3.7** | **3.8** | **4.1** | **4.4** | **4.7** | **6.6** | **6.8** | **7.0** |
| **Incwm a ganiateir yn unol ag Atodlen 1** | 3.8 | 3.7 | 3.8 | 4.1 | 4.4 | 4.5 | 5.8 | 5.8 | 5.8 |
| **Adennill costau a ganiateir yn unol ag Atodlen 1** | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | -0.2 | -0.8 | -1.0 | -1.2 |
| **Incwm a ganiateir gan gynigion yn yr ymgynghoriad cyhoeddus hwn** | | | | | | | | 6.8 | 7.0 |
| **Adennill costau a ganiateir gan gynigion yn yr ymgynghoriad cyhoeddus hwn** | | | | | | | | 0.0 | 0.0 |

## Graff 1: costau'r NRCP (£000)




Cyfeiriwch at yr adran Rhesymeg yn yr ymgynghoriad sy'n egluro'r tueddiadau a nodir gan y graff hwn.

## Tabl 2: newidiadau arfaethedig i Atodlen 1

| Math o anifail neu gynnyrch anifeiliaid | Rheoliadau Taliadau am Wyliadwriaeth Gweddillion (Diwygio) 2024 ar gyfer taliadau (£) ar neu ar ôl Ebrill 2025 | Taliadau arfaethedig (£) yn 2026 - 2027 | Cynnydd gwirioneddol (£) | Taliadau arfaethedig (£) yn 2027 - 2028 | Cynnydd gwirioneddol (£) |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwartheg | 0.7617 y carcas | 0.9964 y carcas | 0.2347 y carcas | 1.0216 y carcas | 0.0252 y carcas |
| Geifr | 0.0751 y carcas | 0.0864 y carcas | 0.0113 y carcas | 0.0886 y carcas | 0.0022 y carcas |
| Defaid | 0.0751 y carcas | 0.0864 y carcas | 0.0113 y carcas | 0.0886 y carcas | 0.0022 y carcas |
| Anifeiliaid carngaled | 0.4660 y carcas | 0.5359 y carcas | 0.0699 y carcas | 0.5495 y carcas | 0.0136 y carcas |
| Moch | 0.0735 y carcas | 0.0845 y carcas | 0.0110 y carcas | 0.0867 y carcas | 0.0022 y carcas |
| Anifeiliaid hela ac anifeiliaid hela gwyllt | 1.0461 y dunnell | 1.0461 y dunnell | 0 y dunnell | 1.0461 y dunnell | 0 y dunnell |
| Dofednod | 0.6432 y dunnell | 0.7397 y dunnell | 0.0965 y dunnell | 0.7584 y dunnell | 0.0187 y dunnell |
| Wyau | 0.0206 fesul pecyn o 360 | 0.0237 fesul pecyn o 360 | 0.0031 fesul pecyn o 360 | 0.0243 fesul pecyn o 360 | 0.0006 fesul pecyn o 360 |
| Llaeth | 0.0405 fesul 1000 litr | 0.0466 fesul 1000 litr | 0.0061 fesul 1000 litr | 0.0478 fesul 1000 litr | 0.0012 fesul 1000 litr |
| Pysgod ar wahân i frithyll | 2.3546 fesul tunnell o gynnyrch sy'n cael ei farchnata | 2.7078 fesul tunnell o gynnyrch sy'n cael ei farchnata | 0.3532 fesul tunnell o gynnyrch sy'n cael ei farchnata | 2.7764 fesul tunnell o gynnyrch sy'n cael ei farchnata | 0.0686 fesul tunnell o gynnyrch sy'n cael ei farchnata |
| Brithyll | 2.8222 fesul tunnell o fwyd pysgod | 3.2455 fesul tunnell o fwyd pysgod | 0.4233 fesul tunnell o fwyd pysgod | 3.3278 fesul tunnell o fwyd pysgod | 0.0823 fesul tunnell o fwyd pysgod |

## Tabl 3: enghraifft ddangosol o effaith ariannol debygol y cynigion ar y sector gwartheg yn yr NRCP

| Sector gwartheg ym Mhrydain Fawr | Gwerth | Sylwadau |
|---|---|---|
| Trwybwn gwirioneddol 24/25 (cyfanswm y carcasau a broseswyd) | 2,283,323 | |
| Tâl cyfredol fesul carcas yn unol ag Atodlen 1 | £0.7617 | |
| **Tâl disgwyliedig i gael ei anfonebu i'r sector yn ystod blwyddyn ariannol 2025 i 2026** | **£1,739,207** | **Disgwylir tâl o £1.7m o'i gymharu â'r gost ddisgwyliedig o £2.2m ar gyfer 25/26** |
| Cyfradd arfaethedig fesul carcas 2026 i 2027 | £0.9964 | |
| **Tâl disgwyliedig i gael ei anfonebu i'r sector yn ystod blwyddyn ariannol 2026 i 2027** | **£2,275,103** | |
| Cyfradd arfaethedig fesul carcas 2027 i 2028 | £1.0216 | |
| **Tâl disgwyliedig i gael ei anfonebu i'r sector yn ystod blwyddyn ariannol 2027 i 2028** | **£2,332,643** | Taliadau blwyddyn lawn ar gyfradd newydd 2027 i 2028 |

Ar sail y tybiaethau a ddisgrifir yn yr adran ‘Cynnig’ yn yr ymgynghoriad, mae'r tabl yn dangos y byddai'r sector gwartheg yn talu cyfanswm o tua £2.2 miliwn yn ystod 2026 i 2027, ac oddeutu £2.3 miliwn yn ystod 2027 i 2028.

## Tabl 4: enghraifft ddangosol o effaith ariannol debygol y cynigion ar brosesydd gwartheg nodweddiadol yn yr NRCP

| Prosesydd gwartheg ym Mhrydain Fawr | Gwerth | Sylwadau |
|---|---|---|
| Trwybwn gwirioneddol 24/25 (cyfanswm y carcasau a broseswyd) | 102,404 | Byddai hyn yn cael ei ystyried yn gynhyrchydd lefel uchel nodweddiadol yn yr NRCP |
| Cyfradd gyfredol fesul carcas yn unol ag Atodlen 1 | £0.7617 | |
| **Tâl disgwyliedig i gael ei anfonebu i'r prosesydd yn ystod blwyddyn ariannol 2025 i 2026** | **£78,001** | |
| Cyfradd arfaethedig fesul carcas 2026 i 2027 | £0.9964 | |
| **Tâl disgwyliedig i gael ei anfonebu i'r prosesydd yn ystod blwyddyn ariannol 2026 i 2027** | **£102,035** | |
| Cyfradd arfaethedig fesul carcas 2027 i 2028 | £1.0216 | |
| **Tâl disgwyliedig i gael ei anfonebu i'r prosesydd yn ystod blwyddyn ariannol 2027 i 2028** | **£104,616** | Taliadau blwyddyn lawn ar gyfradd arfaethedig 2027 i 2028 |

Ar sail y tybiaethau a ddisgrifir yn yr adran ‘Cynnig’ yn yr ymgynghoriad, mae'r tabl yn dangos y byddai'r prosesydd gwartheg cynhyrchiant uchel nodweddiadol yn talu tua £102,000 yn ystod 2026 i 2027, ac oddeutu £105,000 yn ystod 2027 i 2028.

# Cefndir

1. Mae NRCP yn helpu i ddiogelu iechyd pobl ac yn rhoi sicrwydd am ddiogelwch a safonau bwyd. Mae'r rhaglen yn rhan o Gynllun Rheoli Cenedlaethol Amlflwydd y Deyrnas Unedig (MANCP y DU) sef fframwaith y systemau rheoli swyddogol sydd ar waith ar gyfer cyfraith bwyd a phorthiant ac iechyd anifeiliaid (gan gynnwys anifeiliaid dyfrol ac iechyd gwenyn) a rheolau lles anifeiliaid. Ar hyn o bryd mae'r rhaglen yn cwmpasu'r canlynol:
    - cig coch
    - cig dofednod
    - pysgod wedi'u ffermio
    - wyau
    - anifeiliaid hela gwyllt ac anifeiliaid hela wedi'u ffermio
    - mêl
    - llaeth
    - casinau selsig

## Casglu a dadansoddi samplau

2. Ym Mhrydain Fawr, mae tua 30,000 o samplau'n cael eu cymryd a'u dadansoddi bob blwyddyn, sy'n cynnwys y canlynol:

    - tua 25,000 o samplau cig coch a chig dofednod mewn lladd-dai gan arolygwyr
    - tua 5000 o samplau ar ffermydd gan swyddogion iechyd anifeiliaid
    - samplau o frithyll gan arolygwyr Cefas
    - samplau o eogiaid gan y Gyfarwyddiaeth Forol
    - samplau o fêl gan yr Uned Wenyn Genedlaethol
    - samplau o wyau gan APHA a Llywodraeth yr Alban

3. Cytunir ar raglen samplu gydag asiantaethau casglu bob mis Medi mewn cyfarfod cynllunio blynyddol. Anfonir samplau a gesglir ym Mhrydain Fawr at Fera Science Ltd, i'w dadansoddi. Mae dulliau dadansoddi wedi'u hachredu i ISO 17025 ac wedi'u dilysu yn unol â'r gofynion ym Mhenderfyniad 2002/657/EC Comisiwn yr UE.

4. Rheolir costau'r rhaglen drwy Gytundebau Lefel Gwasanaeth rhwng VMD a'r asiantaethau casglu. Mae'r egwyddorion ar gyfer codi ffioedd yn cael eu pennu gan Drysorlys EM yn Rheoli Arian Cyhoeddus.. Mae'r egwyddor sylfaenol yn datgan mai'r dull safonol yw pennu taliadau ar lefel i adennill costau llawn. Mae'r dull hwn o adennill costau llawn yn golygu mai'r sawl sy'n cael ei reoleiddio sy'n ysgwyddo cost rheoleiddio, yn ogystal â sicrhau nad yw'r VMD yn elwa o ffioedd nac yn gwneud colled y mae'n rhaid i Defra neu'r Llywodraeth ehangach roi cymhorthdal ar ei chyfer.

## Y cyd-destun deddfwriaethol a thiriogaethol

5. Mae gwyliadwriaeth a pholisi gweddillion wedi'u datganoli yn y DU ond, yn ymarferol, mae'r VMD yn arwain ar yr NRCP ar gyfer Prydain Fawr. Mae'r VMD yn gweithio mewn partneriaeth agos â Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban. Mae Tabl 5 yn dangos dadansoddiad rhanbarthol o randdeiliaid yn yr NRCP. Dangosir hyn hefyd yn graff 2.

6. Mae'r gofyniad i reoli gweddillion mewn Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (POAO) yn ofyniad deddfwriaethol domestig i sicrhau diogelwch bwyd, ac mae'n deillio o sawl darn o gyfraith yr UE a ddargedwir:

    - Cyfarwyddeb 96/23/EC sy'n amlinellu dulliau o samplu a pha mor aml y cynhelir profion
    - Cyfarwyddeb 96/22/EC sy'n amlinellu dulliau o ymdrin â sylweddau gwaharddedig
    - Rheoliad Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid 2015 sy'n trosi'r ddau ddarn uchod o ddeddfwriaeth ac sy'n darparu ar gyfer pwerau gorfodi
    - Rheoliad Rheolaethau Swyddogol 2017 sy'n cydgrynhoi'r gofynion ar gyfer rheolaethau swyddogol
    - Rheoliadau Taliadau am Wyliadwriaeth Gweddillion 2006

7. Mae'r gofyniad i reoli gweddillion mewn POAO hefyd yn rhan o rwymedigaethau rhyngwladol ar fesurau iechydol a ffytoiechydol (SPS) - ac felly mae cysylltiad annatod rhyngddynt a masnach. Dangosir hyn yn fwyaf clir yn achos yr Undeb Ewropeaidd, sy'n cymeradwyo partneriaid masnachu yn benodol ar gyfer gwahanol fathau o POAO o dan Reoliad 2021/405 ar sail eu rheolaethau ar gyfer gweddillion.

8. Rhestrir Prydain Fawr yn atodiad y Rheoliad hwn, gyda chymeradwyaeth yn dibynnu ar a) bod gan Brydain gynllun rheoli gweddillion ar waith sy'n cyfateb i safonau'r UE a b) bod Prydain yn cyflwyno ein cynlluniau a'n canlyniadau i'r UE yn flynyddol.


9. Heb gael rheolaethau gweddillion o'r fath ar waith i fodloni'r safonau hyn, ni allem roi sicrwydd ynghylch ansawdd na diogelwch ein POAO i farchnadoedd rhyngwladol, a fyddai'n cael effeithiau trychinebus ar fasnach Prydain o safbwynt arian ac enw da.

## Tabl 5: lleoliad rhanbarthol rhanddeiliaid yn yr NRCP

| RHYWOGAETHAU | LLOEGR | CYMRU | YR ALBAN |
|---|---|---|---|
| Gwartheg | 80% | 8% | 12% |
| Moch | 84% | 7% | 9% |
| Defaid | 78% | 10% | 12% |
| Ceffylau | 100% | - | - |
| Dofednod | 89% | 7% | 4% |
| Brithyll | - | - | 100% |
| Eog | - | - | 100% |
| Llaeth | 73% | 9% | 18% |
| Anifeiliaid hela | amh. | amh. | amh. |
| Wyau | amh. | amh. | amh. |

Mae'r tabl yn dangos bod dros 70% o fusnesau ym mhob sector a gwmpesir gan yr NRCP yn Lloegr ac eithrio brithyll ac eog sydd wedi'u lleoli yn yr Alban.

## Graff 2: lleoliad rhanbarthol rhanddeiliaid yn yr NRCP




Mae'r graff yn dangos bod dros 70% o fusnesau ym mhob sector a gwmpesir gan yr NRCP yn Lloegr ac eithrio brithyll ac eog sydd wedi'u lleoli yn yr Alban

## Elfennau cost yr NRCP

1. Mae gan yr NRCP y prif elfennau cost canlynol y mae'n ofynnol i bob un ohonynt gyflawni'r rhaglen. Mae'r VMD, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban yn gweithio'n agos gydag amrywiol bartneriaid cyflawni arbenigol fel Fera Ltd, yr Asiantaeth Safonau Bwyd, CEFAS, APHA ac eraill i gyflawni agweddau ar y rhaglen.

    i. Costau contract allanol
        a. costau samplu
        b. costau profi
        c. costau prosesu

    ii. Ffactorau allanol eraill sy'n effeithio ar gostau
        a. lefelau cynhyrchu rhywogaethau
        b. Cytundeb Gwasanaeth Hirdymor ar gyfer profi samplau

    iii. Costau mewnol VMD
        a. costau staff a gorbenion i gyflawni'r cynllun.

## Rôl asiantaethau casglu

| Partner dan Gontract | Rôl |
| --- | --- |
| Fera Ltd | Dadansoddi pob sampl |
| APHA | Casglu samplau ar ffermydd da byw |
| APHA, Yr Uned Wenyn Genedlaethol (NBU) | Casglu samplau o ffermydd gwenyn |
| APHA, Arolygiaeth Marchnata Wyau (EMI) | Casglu wyau (yng Nghymru a Lloegr) |
| Cefas | Casglu samplau o frithyll (yng Nghymru a Lloegr) |
| Asiantaeth Safonau Bwyd | Casglu samplau mewn lladd-dai (yng Nghymru a Lloegr) |
| Safonau Bwyd yr Alban | Casglu samplau mewn lladd-dai (yn yr Alban) |
| Y Gyfarwyddiaeth Forol | Casglu samplau o eog a brithyll (yn yr Alban) |
| Llywodraeth yr Alban | Casglu samplau o wyau a mêl (yn yr Alban) |

## Sut cyfrifir y taliadau ar gyfer pob sector

### Llaeth

2. Er mwyn cyfrifo'r taliadau a fydd yn berthnasol ar gyfer profi llaeth, yn gyntaf rydym yn cael amcangyfrif o gyfanswm cynhyrchiant llaeth y DU ar sail data o'r flwyddyn flaenorol. O'r data hwn, gallwn gyfrifo nifer y samplau y mae'n ofynnol i ni eu cymryd a chostau casglu a dadansoddi. Byddwn wedyn yn cyfrifo'r tâl fesul 1000 litr o laeth sydd ei angen i adennill y costau hyn.
3. Mae'r holl samplau llaeth sydd i'w profi yn dod o ffermydd llaeth er mwyn sicrhau ein bod yn gallu olrhain tarddiad unrhyw weddillion a ganfyddir.
4. Gydag oddeutu 15,000 o ffermwyr llaeth yn y DU, efallai na fyddwn yn cymryd sampl o fferm benodol yn aml iawn, yn enwedig os yw'r cynhyrchiant ar y fferm honno'n isel.
5. Yn hytrach nag anfonebu pob ffermwr, rydym yn codi ffioedd ar broseswyr llaeth neu brynwyr llaeth sy'n casglu llaeth o ffermydd ac ar y ffermwyr llaeth hynny sy'n gwerthu llaeth yn uniongyrchol i'r cyhoedd (gwerthwyr uniongyrchol). Mae'r dull hwn yn lleihau costau gorbenion y cynllun, ac mae'r ddeddfwriaeth yn caniatáu i bob llaethdy adennill costau profi'r llaeth o'r ffermydd y maent yn prynu llaeth ohonynt. Mae'r tâl a godwn ar bob llaethdy yn seiliedig ar y trwybwn llaeth ar gyfer y llaethdy hwnnw ac mae pryd y cymerwyd y sampl yn amherthnasol.
6. Mae'n ofynnol i brynwyr llaeth a gwerthwyr llaeth uniongyrchol wneud datganiad blynyddol i'r Asiantaeth Taliadau Gwledig (RPA) yn nodi faint o laeth a/neu gynnyrch llaeth a brynwyd neu a werthwyd fel y bo'n briodol. Dyma'r data y mae'r RPA yn ei ddarparu er mwyn cyfrifo'r taliadau sy'n ddyledus ar gyfer pob cynnyrch llaeth a chodi anfonebau fel y bo'n briodol.
7. Mae prynwyr llaeth (a elwir hefyd yn Brynwyr 1$^{af}$) yn cael eu hanfonebu bob 6 mis ac mae ffermydd sy'n gwerthu llaeth yn uniongyrchol i'r cyhoedd yn cael eu hanfonebu bob blwyddyn.
8. Cymerir samplau llaeth ar y fferm gan Swyddogion Iechyd Anifeiliaid.

## Cig coch a chig dofednod

9. Er mwyn cyfrifo'r taliadau a fydd yn berthnasol i'r sector cig coch a chig dofednod, rydym yn gwneud y canlynol:

    - cael y ffigurau ar gyfer yr amcangyfrif o gynhyrchiant pob math o dda byw ar gyfer y flwyddyn i ddod yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, ar sail data o'r flwyddyn flaenorol a ddarparwyd gan Defra
    - cyfrifo nifer y samplau y mae'n ofynnol i ni eu cymryd a pha ddadansoddiad y mae angen ei wneud ar gyfer y samplau hynny
    - pennu costau casglu a dadansoddi'r samplau

10. Byddwn wedyn yn cyfrifo'r ffi am bob carcas sy'n angenrheidiol i adennill y costau uchod.
11. Cyfrifir ffioedd lladd-dai dofednod o ddata trwybwn (lladd-dai) wedi'i ddilysu a gyflenwir gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd a'r FSS.
12. Rydym yn codi anfonebau chwarterol ar gyfer pob lladd-dy a safle prosesu cig, yn seiliedig ar eu trwybwn wedi'i luosi â'r ffi fesul carcas. Mae'r tâl yn seiliedig ar nifer yr anifeiliaid a brosesir gan fusnes mewn cyfnod penodol, yn hytrach na nifer y samplau a gymerir o'r safle hwnnw.
13. Cymerir samplau cig gan swyddogion yr Asiantaeth Safonau Bwyd.
14. Ar gyfer lladd-dai a phroseswyr dofednod sydd â chynhyrchiant isel, efallai na fyddwn yn cymryd samplau bob chwarter.

## Pysgod

15. Er mwyn cyfrifo'r taliadau ar gyfer pysgod (ac eithrio brithyll), rydym yn cael amcangyfrif o gyfanswm cynhyrchiant pysgod y DU ar sail data o'r flwyddyn flaenorol. O’r data hwn, rydym yn cyfrifo nifer y samplau y mae'n ofynnol i ni eu cymryd a chostau casglu a dadansoddi fesul sampl. Gallwn wedyn gyfrifo'r tâl fesul tunnell o gynnyrch sy’n cael ei farchnata, sydd ei angen i adennill y costau hyn.
16. Ar gyfer eogiaid sy'n cael eu ffermio, rydym yn cael ffigurau blynyddol yr eogiaid sy'n cael eu cynaeafu ar ffermydd (yn ôl cyfanswm pwysau wedi'u diberfeddu) gan Gomisiynwyr Ystad y Goron ar gyfer y flwyddyn galendr flaenorol. Yna bydd ffermwyr eogiaid yn cael anfoneb ar sail y data hwn.

17. Mae'r ffioedd ar gyfer ffermwyr brithyll yn seiliedig ar faint o borthiant brithyll a gyflenwir gan felinau porthiant. Mae gwneuthurwyr porthiant brithyll yn talu'r ffioedd i Gymdeithas Brithyll Prydain, sydd wedyn yn talu'r ffioedd.
18. Cymerir samplau o ffermydd pysgod gan swyddogion o CEFAS yng Nghymru a Lloegr, neu gan y Gyfarwyddiaeth Forol yn yr Alban. Efallai na fydd samplau'n cael eu cymryd o fferm bysgod benodol yn aml iawn os yw ei chynhyrchiant yn isel. Felly, mae'r taliadau'n seiliedig ar drwybwn pysgod, yn hytrach nag ym mha gyfnod y cymerir y sampl.

## Anifeiliaid hela

19. Er mwyn cyfrifo'r taliadau ar gyfer profi anifeiliaid hela sy'n cael eu ffermio, rydym yn cael amcangyfrif o gyfanswm cynhyrchiant ar sail data o'r flwyddyn flaenorol. O'r data hwn, rydym yn cyfrifo nifer y samplau y mae'n ofynnol i ni eu cymryd a chostau casglu a dadansoddi fesul sampl. Gallwn ddefnyddio hyn i gyfrifo'r tâl am bob tunnell o gynnyrch sy'n cael ei farchnata sydd ei angen i adennill y costau hyn.
20. Rhaid i bob cyflenwr a phrosesydd anifeiliaid hela fod wedi cofrestru â'r Asiantaeth Safonau Bwyd. Mae'n ofynnol iddynt ddarparu data trwybwn i'r VMD bob chwarter ac yna byddant yn cael eu hanfonebu ar sail y data trwybwn a dderbynnir.
21. Cymerir samplau o anifeiliaid hela gan swyddogion yr Asiantaeth Safonau Bwyd mewn lladd-dai.

## Wyau

22. Mae Arolygwyr Marchnata Wyau (EMIs) Defra yn casglu samplau wyau o orsafoedd pacio yng Nghymru a Lloegr. Mae Swyddogion Marchnata Wyau (EMOs) yn gwneud yr un peth yn yr Alban.
23. Er mwyn lleihau'r baich gweinyddol ar gwmnïau wyau o ganlyniad i'r gofynion adrodd ar drwybwn ac anfonebu, mae gan y VMD gytundeb gyda Chyngor Diwydiant Wyau Prydain (BEIC). Mae'r BEIC bellach yn talu'r tâl gwyliadwriaeth gweddillion am wyau yn uniongyrchol i'r VMD ac yn adennill y costau fel y gwêl yn dda gan ei aelodau. Mae'r cytundeb hwn wedi arwain at arbedion sylweddol i'r diwydiant wyau o ran gwyliadwriaeth gweddillion.

24. Mae'r tâl a delir gan y BEIC yn cynrychioli cost lawn rhedeg y rhaglen wyliadwriaeth statudol ar gyfer gweddillion meddyginiaethau milfeddygol a sylweddau penodol eraill mewn wyau ym Mhrydain Fawr. Mae hyn yn cynnwys casglu a chludo samplau, costau dadansoddi, ac arolygiadau dilynol ar y fferm darddiad o ganlyniadau nad ydynt yn cydymffurfio.

## Gwerth am arian

25. Mae gwerth am arian yn egwyddor allweddol sy'n sail i lywodraethu'r rhaglen gwyliadwriaeth gweddillion. Mae'r gweithdrefnau canlynol ar waith i sicrhau gwerth am arian:

- cytunir ar y rhaglen samplu gydag asiantaethau casglu mewn cyfarfod cynllunio blynyddol a nodir y costau y cytunwyd arnynt mewn Cytundebau Lefel Gwasanaeth
- anfonir samplau a gesglir ym Mhrydain Fawr at Fera Science Ltd, Caerefrog, i'w dadansoddi
- rheolwr gweithrediadau VMD sy'n gyfrifol am drafod costau gweithredol gydag asiantaethau casglu. Y nod yw codi tâl ar bob sector mor gywir â phosibl am y costau gwirioneddol a wynebir
- mae archwiliadau'n rhan allweddol o'r rhaglen, ar gyfer pawb sy'n gysylltiedig: mae Fera ac AFBI yn labordai cyfeirio cenedlaethol dynodedig ac mae pob un yn cael ei archwilio bob 18 mis, fwy neu lai
- mae'r VMD yn archwilio'r holl asiantaethau casglu samplau o bryd i'w gilydd

## Archwiliadau allanol

26. Mae Ewrop yn gyrchfan allweddol i gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid yn y DU, gyda gwerth masnach cyfartalog o £8 biliwn y flwyddyn. Mae Cyfarwyddiaeth Gyffredinol Iechyd a Diogelwch Bwyd y Comisiwn Ewropeaidd, a elwir yn DG SANTE-F, yn anfon cenadaethau i archwilio Aelod-wladwriaethau i sicrhau bod rheolaethau swyddogol yn cael eu cyflawni'n briodol gan gyrff swyddogol. Mae'r Gyfarwyddiaeth hon hefyd yn arolygu gwledydd y tu allan i'r UE i wirio eu bod yn defnyddio safonau cyfatebol ar gyfer nwyddau sy'n cael eu hallforio, sy'n berthnasol i'r DU. Y VMD, fel yr Awdurdod Cymwys dynodedig ar gyfer meddyginiaethau

milfeddygol, yw canolbwynt yr archwiliadau hyn. Yn gyffredinol, mae cenadaethau hefyd yn cynnwys ymweld â ffermydd, lladd-dai, practis(au) milfeddygol, cyfanwerthwyr a Swyddfeydd Iechyd Anifeiliaid dros ddwy i dair wythnos ac fe'u cydlynir gan VMD ar y cyd â Defra, yr APHA a'r Asiantaeth Safonau Bwyd.

27. Mae'r DU hefyd yn destun archwiliadau gan wledydd y tu allan i'r UE, a all naill ai fod ar ffurf holiaduron manwl, neu ymweliadau penodol gan archwilwyr. Mae cynnal teithiau masnach trydedd wlad yn ddarn pwysig o waith sy'n dangos bod ein rheolaethau o ran gweddillion yn gadarn, er mwyn rhoi'r sicrwydd angenrheidiol i bartneriaid masnachu ynghylch ansawdd a diogelwch cynnyrch y DU.